

# **Nodiadau canllaw ar lenwi ffurflen N161 – Hysbysiad Apelydd (pob apêl achos teulu yn y Llys Apêl (yr Adran Sifil) a'r llys teulu)**

Sylwer bod ffurflen **N161** i'w defnyddio ar gyfer mathau penodedig o apeliadau teulu yn y Llys Apêl (yr Adran Sifil) a'r llys teulu.

Ar gyfer apeliadau yn ymwneud ag Adran Deulu'r Uchel Lys, dylid defnyddio ffurflen **FP161** (hysbysiad apelydd) gyda'r nodiadau canllaw cysylltiedig ar lenwi'r ffurflen (**FP161A**).

Gwrandewir apeliadau achosion teulu yn y Llys Apêl (yr Adran Sifil) os yw'r apêl yn ymwneud â'r canlynol:

- Penderfyniadau neu orchmynion Barnwr Cylchdaith neu Gofiadur yn y llys teulu o dan Rannau 4 neu 5 o Ddeddf Plant 1989, neu baragraff 19 (1) o Atodlen 2 i'r ddeddf honno; neu
- Penderfyniadau neu orchmynion Barnwr Cylchdaith neu Gofiadur yn y llys teulu mewn achosion o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002;
- Penderfyniadau neu orchmynion Barnwr Cylchdaith neu Gofiadur yn y llys teulu mewn perthynas â dirmyg llys mewn cysylltiad â'r naill neu'r llall o'r mathau o achosion uchod;
- Penderfyniadau neu orchmynion Barnwr Cylchdaith neu Gofiadur a wnaethpwyd yn dilyn apêl i'r llys teulu;
- Penderfyniad neu orchmyn Barnwr yn yr Uchel Lys.

Gwrandewir apeliadau achosion teulu yn y llys teulu os yw'r apêl yn ymwneud â'r canlynol:

- penderfyniad a wnaethpwyd gan un neu ragor o ynadon lleyg
- penderfyniad a wnaethpwyd gan farnwr rhanbarth
- penderfyniad a wnaethpwyd gan farnwr costau

Mae taflen rad ac am ddim '**EX340 – Rwyf am apelio**' sy'n rhoi gwybodaeth am gyflwyno apêl i'r llys teulu neu'r Llys Apêl neu i'r Uchel Lys ar gael o:

- unrhyw lys teulu;
- [hmctsformfinder.justice.gov.uk](https://hmctsformfinder.justice.gov.uk); neu
- Swyddfa Apeliadau'r Adran Deulu - Family Division Appeals Office, Floor 1M, Queen's Building, The Royal Courts of Justice, Strand, Llundain WC2A 2LL.

Bydd y daflen hefyd yn egluro ystyr rhai o'r termau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y canllawiau hyn.

Gallwch gael rhagor o ganllawiau ynglŷn â chyflwyno apêl i'r Llys Apêl (yr Adran Sifil) gan Gofrestrfa'r Swyddfa Apeliadau Sifil - Civil Appeals Office Registry, Room E307, Royal Courts of Justice, Strand, Llundain WC2A 2LL.

- Gall staff llys eich helpu i lenwi'r hysbysiad apelydd a rhoi gwybod i chi am y drefn, ond allan nhw ddim rhoi cyngor cyfreithiol – er enghraifft, a ddylech apelio, a fydd eich apêl yn llwyddiannus neu beth ddylech chi ei ysgrifennu ar y ffurflen.
- Os oes arnoch angen cyngor cyfreithiol ynglŷn â gwneud apêl, dylech gysylltu â chyfreithiwr neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth ar unwaith.
- Os oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol, dylai eich cyfreithiwr lenwi'r ffurflen hon ar eich rhan.

## **Pwysig – terfynau amser ar gyfer cychwyn (ffeilio) eich apêl.**

Hyn a hyn o amser sydd gennych i ffeilio eich hysbysiad apelydd yn y llys apêl, felly rhaid i chi weithredu'n gyflym.

Bydd taflenni **'EX340 – Rwyf am apelio'** ac **'FP201 – Llwybrau Apelio'** yn eich helpu i benderfynu pa lys yw'r llys apêl priodol yn eich achos chi.

Rhaid i chi ffeilio eich hysbysiad apelydd:-

- O fewn y terfyn amser a bennwyd gan y barnwr yr ydych chi'n apelio yn erbyn ei benderfyniad neu ei orchymyn; NEU
- Lle na osodwyd unrhyw derfyn amser gan y barnwr hwnnw, ond bod yr apêl yn erbyn penderfyniad rheoli achos neu orchymyn gofal interim o dan Adran 38 (1) o Ddeddf Plant 1989, cyn pen 7 niwrnod ar ôl y dyddiad y gwnaethpwyd y penderfyniad yr ydych yn dymuno apelio yn ei erbyn; NEU
- Ym mhob achos arall lle na osodwyd terfyn amser gan y barnwr hwnnw, cyn pen 21 diwrnod ar ôl y dyddiad y gwnaethpwyd y penderfyniad yr ydych yn dymuno apelio yn ei erbyn.

### **Nodiadau cyffredinol ar lenwi'r hysbysiad**

Isod fe welwch nodiadau i'ch helpu i lenwi'r ffurflen. Dylech ddarllen y nodiadau ar bob adran yn ofalus cyn i chi ddechrau llenwi'r adran benodol honno.

Os oes angen mwy o le arnoch i roi'ch atebion, defnyddiwch ddarn arall o bapur, gan nodi'n glir at ba adran y mae'r wybodaeth yn cyfeirio. Ysgrifennwch rif yr achos arno a'i roi ynghlwm wrth yr hysbysiad.

Os nad yw'r holl ddogfennau neu wybodaeth angenrheidiol ar gyfer eich apêl gennych, **peidiwch** â gadael i hyn eich rhwystro rhag anfon y ffurflen i'r llys apêl neu fynd â hi yno o fewn yr amser cywir. Llenwch y ffurflen mor gyflawn â phosibl a darparwch y dogfennau sydd gennych. Bydd y nodiadau ar Adrannau 10 ac 11 yn esbonio mwy am yr hyn y bydd angen i chi ei wneud yn yr amgylchiadau hyn.

## **Adran 1: Manylion yr achos yr ydych yn apelio yn ei erbyn**

Rhowch rif yr achos yr ydych yn dymuno apelio yn ei erbyn. Mae'n ofynnol i chi roi enw llawn pob parti a nodi a oeddent yn geisydd neu ddeisebydd, neu atebydd drwy roi tic yn y blwch priodol. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon a gwybodaeth arall yn y gorchymyn neu'r penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn.

Rhowch eich enw llawn (enw llawn yr apelydd), a'r cyfeiriad y byddech yn hoffi i bob dogfen sy'n ymwneud â'r apêl gael ei hanfon iddo. Dylech gynnwys gwybodaeth ar gyfer cysylltu e.e. rhif ffôn, cyfeiriad ebost ac unrhyw wybodaeth arall ar gyfer cysylltu.

Bydd angen i chi gynnwys y manylion uchod ar gyfer yr atebydd hefyd er mwyn i'r llys allu anfon gohebiaeth a manylion eraill at yr atebydd. Os oes mwy nag un atebydd, rhestrwch eu henwau, cyfeiriadau a manylion cyswllt ar ddarn arall o bapur a thiciwch y blwch 'manylion partïon ychwanegol' i nodi eich bod wedi gwneud hynny. Ysgrifennwch rif yr achos arno a rhowch ef ynghlwm wrth eich hysbysiad.

## **Adran 2: Manylion yr apêl**

**Bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth y bydd arnoch ei hangen er mwyn llenwi'r adran hon i'w gweld yn y gorchymyn neu'r penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn.**

Rhowch enw'r llys yr ydych yn apelio yn erbyn ei orchymyn.

Rhowch enw'r Barnwr yr ydych yn dymuno apelio yn erbyn ei benderfyniad a nodwch, drwy roi tic yn y blwch perthnasol, statws y barnwr.

Dylech hefyd roi tic yn y blwch priodol i nodi natur y Penderfyniad yr ydych yn dymuno apelio yn ei erbyn. Mae penderfyniadau rheoli achos yn cynnwys gorchymynion sy'n ymwneud â'r canlynol:

- yr amserlen ar gyfer treial;
- ffeilio a chyfnewid gwybodaeth (tystion ac arbenigwyr);
- datgelu dogfennau (papurau y dywedodd y llys bod yn rhaid i chi eu rhyddhau i'r partïon eraill); neu
- ychwanegu parti at achos (neu dynnu parti ohono).

Gallai caniatáu neu wrthod llareiddiad dros dro gynnwys gwaharddeb, gorchymyn rhewi, gorchymyn cadw eiddo perthnasol neu orchymyn ariannol.

Dylech roi tic yn y blwch penderfyniad apêl flaenorol os yw hon yn ail apêl a'ch bod yn dymuno apelio yn erbyn canlyniad y gwrandawriad apêl cyntaf.

## **Adran 3: Cynrychiolaeth gyfreithiol**

Nodwch a oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol ai peidio, ac os oes gennych, rhowch enw a manylion cyswllt eich cyfreithiwr.

Nodwch a yw eich achos yn cael ei ariannu ag arian cyhoeddus ai peidio.

Nodwch a oes gan yr atebwydd/atebwyr gynrychiolydd cyfreithiol ai peidio, ac os oes ganddynt, rhwch enw a manylion cyswllt eu cyfreithwyr.

## **Adran 4: Caniatâd i apelio**

Fel rheol bydd angen i chi gael caniatâd i apelio yn erbyn penderfyniad barnwr yn yr Uchel Lys, Barnwr Cylchdaith neu Gofiadur.

Os ydych yn dymuno gwneud **ail apêl** yn erbyn yr un gorchymyn, rhaid i chi gael caniatâd y Llys Apêl cyn y gallwch wneud hynny. Rhaid i chi gyflwyno eich cais am ganiatâd i'r llys hwnnw. Dim ond mewn achosion eithriadol y rhoddir caniatâd ar gyfer ail apêl.

Dylech nodi na roddir caniatâd ond lle bo'r llys yn ystyried bod gan eich apêl obaith gwirioneddol o lwyddo neu os oes rheswm da arall dros wrando'r apêl. Os ydych yn apelio yn erbyn penderfyniad rheoli achos bydd y llys hefyd yn ystyried:

- a yw'r mater yn ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau costau apêl;
- yr effaith gyffredinol ar yr amserlen rheoli achosion, e.e. a yw colli dyddiad y treial yn fwy arwyddocaol na'r pwynt gweithdrefnol yr ydych yn dymuno apelio yn ei gylch;
- yr effaith ar les y plentyn a'r amserlen ar gyfer y plentyn; ac
- a fyddai'n fwy cyfleus ymdrin â'ch pwynt yn y treial.

**Nid** oes angen caniatâd arnoch os yw'r gorchymyn yr ydych yn apelio yn ei erbyn yn un o'r canlynol:

- gorchymyn traddodi;
- gorchymyn yn gwrthod caniatáu habeas corpus mewn perthynas â phlentyn sydd dan oed;

- gorchymyn llety diogel o dan Adran 25 o Ddeddf Plant 1989 neu Adran 119 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Rhaid i chi ofyn am ganiatâd yn yr hysbysiad hwn:

- os na wnaethoch gais am ganiatâd i apelio yn y gwrandawriad lle y gwnaed y penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn; neu
- os bu i chi ofyn am ganiatâd, ond iddo gael ei wrthod, a'ch bod yn dymuno i'r llys apêl ailystyried eich cais.

Os oes arnoch angen mwy o amser nag a ganiateir ar gyfer ffeilio'ch hysbysiad apelydd, rhaid i chi wneud cais am fwy o amser yn yr hysbysiad ei hun. (Gweler y nodiadau ar Adran 9).

## **Adran 5: Gwybodaeth arall sydd ei hangen ar gyfer yr apêl**

Mae'n ofynnol i chi nodi'r gorchymyn yr ydych chi'n dymuno apelio yn ei erbyn. Os ydych yn apelio yn erbyn rhan yn unig o benderfyniad neu orchymyn, rhaid i chi ysgrifennu'r rhan (neu'r rhannau) o'r gorchymyn yn y blwch a ddarperir.

## **Adrannau 6 a 7: Seiliau'r apêl a dadleuon i'w cefnogi**

Rhaid i apêl fod yn seiliedig ar seiliau perthnasol (rhesymau dros apelio). Ni fydd llys apêl yn caniatáu apêl yn erbyn penderfyniad llys is a oedd naill ai:

- yn anghywir; neu
- yn anghyfiawn oherwydd anghysondeb gweithdrefnol difrifol neu anghysondeb arall yn yr achos.

Nid yw'r llys apêl yn debygol o wrthdroi penderfyniad lle na fyddai hynny'n gwneud gwahaniaeth mawr i ganlyniad yr achos, neu

Ile byddai'r apêl yn golygu ailedrych ar yr ymchwiliad ffeithiol a wnaed gan y llys is.

Nodwch yn fyr, ar **ddarn arall o bapur**, pam yr ydych yn meddwl bod penderfyniad y barnwr yn anghywir neu'n anghyfiawn. Os yw'n bosibl, rhestrwch eich rhesymau mewn paragraffau byr wedi eu rhifo ar wahân, a nodwch eich bod wedi gwneud hyn drwy roi tic yn y blwch perthnasol.

**Peidiwch** â chynnwys unrhyw seiliau dros apelio sy'n dibynnu ar dystiolaeth newydd; hynny yw, tystiolaeth sydd wedi dod i law ers i'r gorchymyn gwreiddiol gael ei wneud. Chewch chi ddim cyflwyno tystiolaeth newydd yn eich apêl heb gael caniatâd y llys apêl yn gyntaf. (Gweler y nodiadau ar Adran 9).

Nodwch drwy roi tic yn y blwch perthnasol a ydych yn rhoi eich dadleuon (y cyfeirir atynt fel 'dadl fframwaith') ynghlwm wrth yr hysbysiad hwn ynteu a ydych yn bwriadu eu hanfon ar wahân cyn pen 14 diwrnod ar ôl ffeilio'r hysbysiad apelydd hwn yn y llys.

Dylai eich dadl fframwaith ar wahân gael ei ffeilio a'i chyflwyno i bob atebydd gyda'ch hysbysiad wedi'i lenwi os ydych yn apelio i'r Llys Apêl.

Dylai eich dadl fframwaith gynnwys rhestr wedi'i rhifo o'r pwyntiau y bwriadwch ddibynnu arnynt yn y gwrandawriad. Ni ddylid cymryd mwy na brawddeg neu ddwy i ddatgan pob pwynt. Cyfeiriwch ym mhob pwynt at unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu ffeilio gyda'ch hysbysiad apelydd sy'n cefnogi'r ddadl honno (gweler Adran 11 ar ddogfennau).

### **Gwybodaeth ddefnyddiol arall**

Ceisiwch feddwl pa wybodaeth arall allai fod yn ddefnyddiol i'r llys apêl. Er enghraifft, efallai y byddai'n fuddiol i'r llys gael rhestr o bobl sy'n gysylltiedig â'r achos, eglurhad o dermau technegol a ddefnyddir yn y papurau, neu restr o ddigwyddiadau yn nhrefn



dyddiad (cronoleg). Os ydych yn darparu unrhyw rai o'r rhain, dylent fod ar ddarn arall o bapur ynghlwm wrth eich hysbysiad, a dylai rhif yr achos neu'r hawliad ac enwau'r partïon fod wedi'u nodi arno.

## **Adran 8: Beth ydych chi'n gofyn i'r llys apêl ei wneud?**

Nodwch, drwy roi tic yn y blwch perthnasol, a ydych yn gofyn i'r llys apêl roi'r gorchymyn yr ydych yn apelio yn ei erbyn o'r naill du neu ei amrywio, ynteu a fydddech yn hoffi iddo orchymyn treial newydd.

## **Adran 9: Ceisiadau eraill**

Llenwch yr adran hon dim ond os ydych chi'n gofyn am orchymynion sy'n ychwanegol i'r rhai y gofynnwyd amdanynt yn Adran 8.

Dylai unrhyw gais am estyniad i'r amser ar gyfer apelio gael ei wneud yn yr hysbysiad apêl ei hun. Dylech nodi'r rheswm dros yr oedi a'r camau a gymerwyd hyd at adeg ffeilio'r hysbysiad. Gweler tudalen 2 am wybodaeth am derfynau amser.

Efallai y byddwch am wneud mwy o geisiadau i'r llys apêl mewn perthynas â'ch apêl, er enghraifft i gyflwyno tystiolaeth newydd yn eich apêl. Gellir gwneud unrhyw geisiadau eraill naill ai yn y rhybudd, neu rhybudd cyflwyno cais ar wahân (**Ffurflen N244 – Rhybudd Cyflwyno Cais**). Gellir cael y ffurflen hon gan y llys neu ar ein gwefan [hmctsformfinder.justice.gov.uk](https://hmctsformfinder.justice.gov.uk). Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu ffioedd ychwanegol os ffeilir hi'n ddiweddarach na'ch hysbysiad apelydd.

## **Adran 10: Tystiolaeth i gefnogi**

Cynhwyswch yma unrhyw wybodaeth sydd gennych i gefnogi eich cais o dan Adran 9.

Nodwch a ydych yn cyflwyno tystiolaeth newydd yn eich apêl neu'n gofyn am ganiatâd i gyflwyno tystiolaeth lafar yng ngwrandawriad yr apêl. Bydd angen i chi roi rhesymau pam nad oedd y dystiolaeth newydd gerbron y llys gwreiddiol, a lle gofynnir am dystiolaeth lafar, y rhesymau pam eich bod yn credu bod angen hyn. Dylech lofnodi'r datganiad gwirionedd ar waelod yr adran hon i gefnogi unrhyw dystiolaeth a ddarperir gennych.

Mae'n bwysig eich bod yn gwirio bod yr wybodaeth sydd yn yr hysbysiad yn gywir cyn llofnodi. Mae llofnodi datganiad gwirionedd anwir heb gredu'n onest ei fod yn wir yn ddirmyg llys. Gallai arwain at ddirwy, atafaelu eich asedau neu ddedfryd o garchar.

## **Adran 11: Dogfennau ategol**

**Peidiwch ag oedi cyn ffeilio eich hysbysiad apelydd yn y llys apêl.** Os nad ydych wedi gallu cael gafael ar unrhyw rai o'r dogfennau a restrir isod o fewn yr amser a ganiateir, llenwch yr hysbysiad orau y gallwch a gwnewch yn siŵr bod yr hysbysiad yn cael ei ffeilio mewn pryd. Ticiwch y blychau priodol i ddangos pa ddogfennau yr ydych yn eu ffeilio gyda'r hysbysiad apêl. Rhestrwch unrhyw ddogfennau yr ydych yn bwriadu eu defnyddio ond nad ydynt ar gael gennych yn y blwch dros y dudalen. Nodwch y rhesymau pam nad ydych wedi gallu cael gafael ar unrhyw ddogfennau neu wybodaeth a rhowch y dyddiad pryd yr ydych yn disgwyl y byddant ar gael.

Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid ffeilio'r dogfennau a ganlyn gyda'ch hysbysiad apelydd.

Yn y Llys Apêl:

- tri chopi o'r hysbysiad apelydd a thri chopi o seiliau'r apêl;
- un copi ychwanegol o'r hysbysiad apelydd ac un copi o seiliau'r apêl ar gyfer pob un o'r atebwyr;
- un copi o seiliau'r apêl ar ddarn arall o bapur ynghlwm wrth bob hysbysiad apelydd sy'n cael ei ffeilio;
- un copi o'r gorchymyn wedi'i selio (ei stampio gan y llys) neu'r penderfyniad tribiwnlys yr ydych yn apelio yn ei erbyn;
- copi o unrhyw orchymyn yn rhoi neu'n gwrthod caniatâd i apelio ynghyd â chopi o resymau'r barnwr dros ganiatáu neu wrthod caniatâd i apelio;
- un copi o unrhyw ddatganiad tyst neu affidafid i gefnogi unrhyw gais sydd wedi'i gynnwys yn yr hysbysiad apelydd;
- lle bo penderfyniad y llys is ei hun wedi'i wneud ar apêl, copi o'r gorchymyn cyntaf, y rhesymau a roddwyd gan y barnwr a wnaeth y gorchymyn hwnnw a hysbysiad yr apelydd o'r apêl yn erbyn y gorchymyn hwnnw;
- un copi o'r ddadl fframwaith i gefnogi'r apêl neu'r cais am ganiatâd i apelio;
- copi o'r trawsgrifiad wedi'i gymeradwyo o'r dyfarniad; a
- chopi o'r dystysgrif cymorth cyfreithiol neu dystysgrif CLSF (os oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol).

# Beth sy'n digwydd nesaf?

## Ffeilio eich hysbysiad wedi'i gwblhau a'ch dogfennau

Anfonwch yr hysbysiad a chopïau o'r holl ddogfennau i swyddfa'r llys apêl, neu ewch â hwy yno, ynghyd â'r ffi briodol. Gall y llys ddweud wrthyhch faint yw'r ffi. Bydd y llys yn selio'r hysbysiadau (stampio'r hysbysiad gyda sêl y llys).

Os nad oes gennych lawer o gynilion, neu os nad oes gennych unrhyw gynilion, os ydych yn derbyn budd-daliadau penodol neu os yw eich incwm yn isel, efallai y gallwch gael help i dalu ffi'r llys (a elwir hefyd yn ddileu ffi). I gael rhagor o wybodaeth, neu i wneud cais am help i dalu ffioedd, ewch i [gov.uk/get-help-with-court-fees](http://gov.uk/get-help-with-court-fees). Os nad ydych yn gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd, gallwch gael ffurflen bapur (**EX160 – Sut i wneud cais am help i dalu ffioedd**) gan staff llys mewn unrhyw swyddfa llys teulu. Os nad ydych yn gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd a'ch bod yn llenwi cais papur o ffurflen **EX160, RHAID** i chi ei anfon i'r llys yr un pryd â'ch hysbysiad apelydd (**N161**).

**Gallai peidio â gwneud hynny arwain at oedi cyn ymdrin â'ch apêl, a allai olygu bod eich apêl yn cael ei dal yn ôl ('atal') neu ei gwrthod ('dileu').**

## Cyflwyno eich hysbysiad apelydd

Mae'n ofynnol i chi gyflwyno copi wedi'i selio (ei stampio gan y llys) o'ch hysbysiad apelydd i bob atebydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ond ddim hwyrach na saith niwrnod ar ôl iddo gael ei ffeilio gan y llys. Gofynnir i chi gadarnhau eich bod wedi cyflwyno'r hysbysiad i'r atebydd/atebwyr ar ffurflen a ddarparwyd gan y llys. Os nad ydych wedi cynnwys eich dadl fframwaith yn eich hysbysiad apelydd rhaid i chi gyflwyno hon hefyd ddim llai na 14 diwrnod ar ôl cyflwyno eich hysbysiad apelydd i bob atebydd.

## **Paratoi a ffeilio eich bwndel o ddogfennau**

Bydd angen i chi baratoi a ffeilio bwndel o ddogfennau i'w defnyddio gan y llys wrth wrando ar eich apêl. Bydd angen cyflwyno hwn hefyd i bob atebydd maes o law.

Pan fyddwch wedi ffeilio eich hysbysiad apelydd yn y Llys Apêl, byddwch yn cael eich hysbysu drwy lythyr o swyddfa'r llys ynglŷn â'r dyddiad y mae'n ofynnol i chi ffeilio eich bwndel. Os ydych wedi ffeilio eich hysbysiad apelydd yn y llys teulu, bydd y llys hwnnw'n gwneud cyfarwyddiadau yn nodi erbyn pryd y mae angen i chi ffeilio eich bwndel yn y llys.

Dylai eich bwndel o ddogfennau i gefnogi eich apêl gynnwys:

- copi o'ch hysbysiad apelydd;
- copi o unrhyw hysbysiad atebydd;
- copi o unrhyw ddadleuon fframwaith sy'n cael eu ffeilio gennyh chi neu gan yr atebydd;
- copi o'r gorchymyn sy'n destun apêl;
- copi o unrhyw orchymyn a wnaethpwyd gan y llys is yn rhoi neu'n gwrthod caniatâd i apelio, ynghyd â rhesymau'r barnwr;
- copi o'r trawsgrifiad wedi'i gymeradwyo o'r dyfarniad neu gofnod arall o resymau;
- mewn achosion lle cafodd y penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn ei wneud ar apêl, copi o'r gorchymyn cyntaf, y rhesymau a roddwyd a'r hysbysiad apelydd a ddefnyddiwyd i apelio yn erbyn y gorchymyn hwnnw (Llys Apêl);
- unrhyw ddogfennau eraill y bydd y llys yn gofyn amdanynt

Gall eich bwndel apêl hefyd gynnwys copïau o unrhyw rai o'r dogfennau a ganlyn, ond dim ond os ydynt yn berthnasol i'r apêl:

- datganiadau achos;
- hysbysiadau cais;
- gorchmynion eraill a wnaethpwyd yn yr achos;
- rhestr o ddogwyddiadau perthnasol wedi'u gosod yn nhrefn amser;
- datganiadau tystion i gefnogi unrhyw gais a wnaethpwyd yn eich hysbysiad apelydd;
- datganiadau tyst eraill;
- unrhyw ddogfennau eraill y credwch y byddent o gymorth i'r llys.

## Cyflwyno eich bwndel o ddogfennau

### • Yn y Llys Apêl

Darperir rhagor o ganllawiau yn ymwneud â chyflwyno'r bwndel yn y Llys Apêl i chi drwy lythyr gan y Swyddfa Apeliadau Sifil ar ôl i chi ffeilio eich hysbysiad apelydd.

### • Yn y Llys Teulu

Bydd y llys yn rhoi cyfarwyddiadau yn ymwneud â chyflwyno'r bwndel o ddogfennau i bob atebydd yn yr apêl. Rhaid i chi gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a roddir gan y llys. **Gallai peidio â gwneud hynny arwain at oedi cyn ymdrin â'ch apêl, a gallai hynny olygu bod eich apêl yn cael ei dal yn ôl ('atal') neu ei gwrthod ('dileu').**

Anfonwch hysbysiadau wedi'u cwblhau ar gyfer y Llys Apêl (yr Adran Sifil) i'r cyfeiriad isod:

Civil Appeals Office Registry, Room E307, Royal Courts of Justice, Strand, WC2A 2LL

Ar gyfer apeliadau i'r Llys Teulu, cyn anfon eich hysbysiad apelydd wedi'i gwblhau, edrychwch am fanylion eich llys teulu agosaf yn <https://courttribunalfinder.service.gov.uk>